Cyfarfod Pwyllgor Arbed Llanystumdwy
Ysgol Llanystumdwy Mawrth 11eg am 7 y.h

Presennol: Henry Roberts, Gwenda Roberts, Gail Jones, Sian Parry, Mannon Griffiths, Gwyn Ellis, Twm Morys, Helen Rose, y Cynghorydd Margaret Griffith.

Ymddiheuriadau: Ellis Gwyn, Awen Hamilton, Aled Price, Sioned Thomas.

Pwrpas y cyfarfod yma oedd er mwyn i'r Cynghorydd Margaret Griffith gael cyfle i ddweud sut y mae hi yn gweld pethau o'i hochr hi a pham fod ei phleidlais wedi mynd ffordd gwnaeth hi. Yr oedd yn gyfle hefyd i ystyried sut i gydweithio yn y dyfodol.

Eglurodd Margaret Griffith ei bod wedi mynd i gyfarfod y Cyngor ar 13eg o Ragfyr, 2007 gyda'r bwriad o nodi'r adroddiad yn unig, ac fod dwy ysgol yn achosi pryder iddi, sef Rhydyclafdy a Croesor. Yr oedd yn gweld cyfle i wella sefyllfa ariannol ysgolion yn ei hardal hi drwy gau y rhain. Dywedodd Gwyn Ellis mai rhieni sydd yn cau'r ysgolion yma drwy beidio gyrru eu plant yno, ac felly does dim angen y ddogfen yma i'w cau nhw. Byddent yn cau beth bynnag.

Aeth ymlaen i egluro na allai gefnogi cynnig Penri Jones i gynllunio dogfen newydd gan y byddai hynny yn rhoi stop ar bob dim yn y ddogfen bresennol. Ni allai daflu'r ddogfen allan i gyd na'i chefnogi hi. Eglurodd na chafwyd cynnig i "nodi'r ddogfen" fel yr oedd hi eisiau, ac er ymgeisio ni chafodd gyfle i siarad yn y Cyngor. Dywedodd ei bod eisiau brwydro i achub ysgol Llanystumdwy a doedd dim cyfiawnhad pam fod ysgol Llanystumdwy ar y rhestr beth bynnag. Fe ddywedodd fod sefyllfa ysgol Llanystumdwy yn unigryw, a na fedr ffederaleiddio'r ysgol dim ond efo ysgol eglwys arall.

Pryder arall ganddi oedd y bydd yna doriad o 3% o gyllideb ysgolion cynradd ym mis Ebrill 2008 dros y dair blynedd nesaf, ac y byddai hyn yn cael effaith ar y dair ysgol yn ei chylch hi.

Nid yw Margaet Griffith yn gweld mai dogfen i gau ysgol Llanystumdwy yw hon ac mai pleidleisio i dderbyn y ddogfen ar gyfer ymgynghori ddaru nhw yng Nghaernarfon, ac os wnawn nhw wrando fe fydd y ddogfen nesaf yn newid. Dywedodd fod ysgolion Llangybi a Chwilog yn eithaf hapus gyda'r syniad o ffederaleiddio, ond pan ofynodd Gwyn Ellis iddi os oedd hi wedi cael barn rhieni Llangybi a Chwilog atebodd nad oedd hi ddim. Aeth Gwyn Ellis ymlaen i ddweud wrthi ei bod wedi cael barn nifer fawr o bobl Llanystumdwy ac y dylsai fod yn eu cynrychioli nhw yng Nghaernarfon.

Dywedwyd wrth Margaret Griffith fod llawer o ystadegau yn y ddogfen yn anghywir e.e rhifau genedigaethau, a bod y ddogfen i gyd yn gamarweiniol iawn. Aeth Gail Jones ymlaen i ddweud wrthi os nad oedd hi yn gyfforddus efo rhai pethau yn y ddogfen fe ddylsai hi wedi dweud hynny ar y diwrnod, a'i gwrthod.

Gofynodd Sian Parry os oedd ein cynghorydd lleol 100% tu cefn i ni ond fe atebodd drwy ddweud ei bod yn ein cefnogi.

Gofynwyd i Margaret Griffith arwyddo ffurflen gan Gynghrair Ysgolion a Chefnogwyr ynghyd a Gwyn Ellis a Henry Roberts i alw ar Gyngor Gwynedd i roi o'r neilltu yr ymgynghoriad presennol a llunio cynllun draft newydd yng ngoleuni'r canlynol :

- Proffiliau ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol o'r ysgolion a'r cymdogaethau; ac asesiadau ardrawiad ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol mewn perthynas a'r ysgolion a'r cymdogaethau.
- Astudiaethau cymharol helaethach er mwyn ehangu'r dewisiadau i gynnwys cydweithio ffurfiol a gwahanol fathau o glystyru ac o ffederaleiddio.
- Barn rhieni a chyrff llywodraethol leol.

Addawodd y Cynghorydd Margaret Griffith ddarllen y ddogfen cyn ystyried ei harwyddo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Margaret Griffith am fynychu y cyfarfod ac am rannu ei syniadau a'i heglurhad.

Cyfarfod Ffederasiwn Ysgolion Bychan

Fe fu Gwyn Ellis a Henry Roberts yng nghyfarfod Ffederasiwn Ysgolion Bychan ym Mhorthmadog. Dywedodd y siaradwr ar ran y Ffederasiwn fod cynghorau yn disgyn i ddau gategori clir, sef y rhai sydd yn trio eu gorau i gadw ysgolion bach ac yn credu ynddynt, a'r lleill yn groes. Yn ei farn o, i'r ail gategori y syrthia Cyngor Gwynedd. Aeth ymlaen i ddweud, beth bynnag liw mae nhw yn ei rhoi ar bethau, mae'n edrych yn debyg mai cau yw'r nod yn y pen draw ganddynt. Dywedodd nad yw eu cynllun ffederaleiddio yr hyn y mae o yn ei ymddangos, a dylem ei wrthwynebu ym mhob ffordd.

Ffurflen Ymateb

Mae Henry wedi gwneud pwyntiau ac mae'r Cyngor Cymuned wedi llenwi'r holiadur. Awgrymwyd y byddai'n syniad i deipio'r holl bwyntiau a dod a nhw i gyd at ei gilydd. Fe all bobl bigo pwyntiau allan wedyn yn hytrach na fod pawb yn rhoi'r un atebion. Y gobaith yw cael y rhain i fewn at ddechrau wythnos nesaf.

Cyfarfod 20.03.2008

Bydd cyfarfod o benaethiaid Gwynedd a swyddogion Cyngor Gwynedd yn neuadd Llanystumdwy Mawrth 20fed am 4.30 y.h. Awgrymwyd y byddai yn syniad fod paned a bisged ar gael. Helen Rose am wneud trefniadau at hyn.